DATGANIAD I'R WASG
3 Mawrth 2010

ENILLWYR CYSTADLEUAETH YSGRIFENNU STORI DIWRNOD Y LLYFR 2010

A hithau'n Ddiwrnod y Llyfr yfory, 4 Mawrth mae Urdd Gobaith Cymru yn falch o gyhoeddi enwau enillwyr Cystadleuaeth Ysgrifennu Stori Diwrnod y Llyfr 2010, a drefnwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru a chylchgrawn yr Urdd, **Cip**.

Alaw Evans o Ysgol Penllwyn, Capel Bangor a Steffan Davies o Ysgol Pen Baras, Rhuthun ddaeth i'r brig gan ennill gwobr o £25 mewn arian a £25 mewn tocynnau llyfrau yr un ogystal â £100 i'r ysgolion. Gellir dod o hyd i'w straeon buddugol yn rhifyn mis Mawrth o gylchgrawn **Cip**.

Beirniaid y gystadleuaeth eleni oedd yr awduron plant cyfarwydd, Catherine Aran a Gareth William Jones. Roeddent ill dau o'r farn fod yr ymdrechion a ddaeth i law yn arbennig o dda a bod dyfodol disglair yn y byd ysgrifennu o flaen ambell i unigolyn!

Meddai Catherine Aran am stori fuddugol Alaw yng nghategori Blynyddoedd 3 a 4;
''Hoffais stori Alaw yn fawr iawn. Roedd ynddi ddisgrifiadau arbennig ac mae gan Alaw ddawn amlwg i ysgrifennu'n gryno. Llwyddodd i ddilyn patrwm pendant o'r cychwyn cyntaf gan fedru cynnal strwythur clir hyd ddiwedd y stori.''

Meddai Gareth William Jones am stori fuddugol Steffan yng nghategori Blynyddoedd 5 a 6;
''Mae'n gallu ysgrifennu'n gampus ac mae'r stori'n llifo'n hyfryd o'r cychwyn hyd y frawddeg olaf. Mae'n defnyddio deialog ac ansoddeiriau yn bwrpasol ac yn cadw sylw'r darllenydd drwyddi. Llwyddodd Steffan heb os i greu stori y gallwn ni i gyd uniaethu â hi.''

Yn arbennig i ddathlu Diwrnod y Llyfr, derbyniodd Alaw a Steffan a gweddill disgyblion Ysgolion Penllwyn a Phen Baras weithdai difyr yng nghwmni'r awduron poblogaidd. Cynhaliodd Catherine a Gareth sesiynau dweud stori yn

yr ysgolion heb anghofio cyflwyno gwobrau, llofnodi copïau o'u llyfrau a llawer o hwyl!

Mae'r ddwy stori fer fuddugol yn ymddangos yn rhifyn mis Mawrth o **Cip**.

Diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Wyn, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613115, manonwyn@urdd.org.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Mae gan yr Urdd dri chylchgrawn bywiog sef **Cip**, **Bore Da** a **iaw!**. Cyhoeddir deg rhifyn yr un o'r cylchgronau'n flynyddol ac maent yn cael eu prynu gan 10,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru bob mis. Mae **Cip** wedi ei anelu at Gymry Cymraeg cynradd, **Bore Da** at ddysgwyr cynradd a **iaw!** at ddysgwyr uwchradd.
- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.